OVID-19 Update: 9th June

Here is the latest COVID-19 update from Cardiff Council, covering: grant scheme available to businesses affected by the COVID-19 emergency closing for new applications on the 30th June 2020; the areas covered by this Saturday's Garden Waste collections; and more pollinator friendly 'one cut' mowing.

Closing date for COVID-19 Business Grants

The grant scheme available to businesses affected by the COVID-19 emergency will close for new applications on the 30th June 2020.

Businesses which are currently eligible for Small Business Rates relief, that is those with a rateable value up to £12,000, can receive a grant of £10,000.

Retail, leisure and hospitality businesses with a rateable value between £12,001 and £51,000 will receive a grant of £25,000.

Charities and not for profit organisations in the Retail, Leisure or hospitality sectors with a rateable value of up to £12k could receive a grant of up to £10k.

Applications can be made online here:
https://apps8.cardiff.gov.uk/grantform/

Garden waste collection areas this coming Saturday

The areas of Cardiff that have their waste collected on a **Tuesday** will have a garden waste collection this coming **Saturday, 13th June**.

The one-off garden waste collections continue into June and the first week of July, so that residents are able to dispose of their grass cuttings, small twigs and branches, leaves, and plant and flower cuttings.

These are the only waste types which should be put in your green wheelie bin or reusable bags.

Residents are being reminded that they should only put out garden waste for collection in their green wheelie bin or their reusable garden sacks.

Any additional garden waste, which is put in any other container, including plastic bags, will not be collected.

If incorrect items are placed in the green bin or the re-usable sacks, a pink sticker will be placed on the container to notify the resident that incorrect items have been put out for collection and the waste will not be collected.

Pollinator friendly mowing regimes adopted at 18 new sites across Cardiff

More pollinator friendly ‘one cut’ mowing regimes have been adopted at 18 new sites across Cardiff.

The sites cover an overall area of 9 hectares, the equivalent of 12.5 football pitches. The trial is part of the council’s ongoing work to help encourage wildflower growth and provide important habitats for pollinators, such as bees and butterflies, whose numbers are declining in the UK.

The areas, which have not been cut this year and will receive only one cut, in early autumn are:

- Pentwyn Drive (part of) - Pentwyn
- Roath Botanic Gardens (part of) - Cyncoed

- Sandies / Railway Gardens - Penylan
- Pendragon Open Space - Llanishen
- Heol y Felin / All Saints - Rhiwbina
- Gabalfa Interchange Bowl - Gabalfa
- Llanishen Park (part of) - Llanishen
- Heath Park (part of) - Heath
- Pocket Park Wetlands - Butetown
- Fairwater Park (part of) - Fairwater
- Taff Embankment - Riverside
- Caedelyn Park (part of) - Rhiwbina
- Parkfield Place - Gabalfa
- Green Farm Recreation Ground - Ely
- Marl (part of) - Grangetown
- Victoria Park (part of) - Canton
- College Road (part of) – Llandaff North
- Jellicoe Gardens - Cyncoed

The new sites are in addition to the 24.5 hectares of native meadows, pollinator friendly and one cut sites already looked after by the council.

Cabinet Member for Culture and Leisure, Cllr Peter Bradbury said: “Every year we receive significantly more requests from residents for grass to be cut in their local parks and green spaces than we do to let these areas grow wild, but given the decline in pollinators which our food supplies depend on, it is important that the Council does the right thing and plays a part in helping to reverse the trend’’.

You can read the full story here:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/24052.html

Diweddaraf COVID-19: 9 Mehefin

Dyma’r diweddaraf ar COVID-19 gan Gyngor Caerdydd: bydd y cynllun grant i fusnesau a effeithir gan yr argyfwng COVID-19 yn cau i geisiadau newydd ar 30 Mehefin 2020; yr ardaloedd sy'n cael casgliadau gwastraff gardd dydd Sadwrn yma; a mae rhagor o gyfundrefnau torri gwair ‘unwaith’.

Dyddiad cau ar gyfer Grantiau Busnes COVID-19

Bydd y cynllun grant i fusnesau a effeithir gan yr argyfwng COVID-19 yn cau i geisiadau newydd ar 30 Mehefin 2020.

Busnes sydd ar hyn o bryd yn gymwys ar gyfer disgownt Ardrethi Busnesau Bychan, hynny yw y rheiny sydd â gwerth ardrethol hyd at £12,000, yn derbyn grant o £10,000.
Bydd busnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch gyda gwerth ardrethol rhwng £12,001 a £51,000 yn derbyn grant o £25,000.
Gallai elusennau a sefydliadau dielw yn y sectorau manwerthu, hamdden neu letygarwch sydd â gwerth ardrethol o hyd at £12k gael grant o hyd at £10k.

Os ydych yn credu eich bod chi'n fusnes cymwys llenwch y ffurflen gais a dilynwch y prosesau a amlinellir.

Gwneud cais ar-lein yma:
https://apps8.cardiff.gov.uk/grantform/

Yr ardaloedd sy'n cael casgliadau gwastraff gardd dydd Sadwrn yma

Bydd yr ardaloedd yng Nghaerdydd y mae eu gwastraff yn cael ei gasglu ar **Ddydd Mawrth** yn cael casgliad gwastraff gardd **ddydd Sadwrn yma, 13 Mehefin**.

Bydd y casgliadau gwastraff gardd untro yn parhau yn ystod mis Mehefin a wythnos gyntaf mis Gorffennaf, fel y gall preswylwyr gael gwared ar eu toriadau glaswellt, brigau a changhennau bach, dail, a thoriadau planhigion a blodau.

Dyma'r unig fathau o wastraff y dylid eu rhoi yn eich bin olwynion gwyrdd neu eich bagiau amldro.

Hoffem atgoffa preswylwyr y dylent roi gwastraff gardd allan i'w gasglu yn eu biniau olwynion gwyrdd neu eu sachau gardd amldro yn unig.

Ni fydd unrhyw wastraff gardd ychwanegol a roddir mewn unrhyw gynhwysydd arall, gan gynnwys bagiau plastig, yn cael ei gasglu.

Os rhoddir eitemau anghywir yn y bin gwyrdd neu'r sachau amldro, caiff sticer pinc ei roi ar y cynhwysydd i hysbysu'r preswylydd bod eitemau anghywir wedi eu rhoi allan i'w casglu ac ni chaiff y gwastraff ei gasglu.

Mabwysiadu cyfundrefnau torri gwair sy'n dda i bryfed peillio mewn 18 safle newydd ledled Caerdydd

Mae rhagor o gyfundrefnau torri gwair 'unwaith' sy'n dda i bryfed peillio wedi eu mabwysiadu mewn 18 safle newydd ledled Caerdydd

Mae'r safleoedd yn cwmpasu cyfanswm arwynebedd o 9 hectar, sy'n cyfateb i 12.5 cae pêl-droed. Mae'r arbrawf hwn yn rhan o waith parhaus y Cyngor i helpu i annog blodau gwyllt i dyfu a chreu cynefinoedd pwysig ar gyfer pryfed peillio, megis gwenyn a gloÿnnod byw, y mae eu niferoedd yn gostwng yn y DU.

Yr ardaloedd, nad yw'r glaswellt wedi ei dorri ynddynt eleni ac na chaiff ei dorri ond unwaith, yn gynnar yn yr hydref yw:

- Pentwyn Drive (rhan) - Pentwyn

- Gerddi Botaneg y Rhath (rhan) - Cyncoed
- Sandies / Gerddi Rheilffordd - Penylan
- Man Agored Pendragon - Llanisien
- Heol y Felin / Yr Hollsaint - Rhiwbeina
- Cyfnewidfa Gabalfa - Gabalfa
- Parc Llanisien (rhan) - Llanisien
- Parc y Mynydd Bychan (rhan) - y Mynydd Bychan
- Gwlyptiroedd Parc Poced - Butetown
- Parc y Tyllgoed (rhan) - Y Tyllgoed
- Taff Embankment - Glan-yr-afon
- Parc Caerdelyn (rhan) - Rhiwbeina
- Parkfield Place - Gabalfa
- Tir Hamdden Green Farm - Trelái
- Marl (rhan) - Grangetown
- Parc Fictoria (rhan) - Treganna
- Ffordd y Coleg (rhan) – Ystum Taf
- Gerddi Jellicoe - Cyncoed

Mae'r safleoedd newydd yn ychwanegol at y 24.5 hectar o ddolydd cynhenid, sy'n dda i bryfed peillio ac sy'n safle torri unwaith, sydd eisoes yn cael gofal gan y Cyngor.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Ddiwylliant a Hamdden, y Cynghorydd Peter Bradbury: "Bob blwyddyn rydym yn cael llawer mwy o geisiadau gan drigolion i dorri glaswellt yn eu parciau a mannau gwyrdd lleol nag yr ydym yn eu cael i adael i'r ardaloedd hyn dyfu'n wyllt, ond o ystyried y dirywiad yn nifer y pryfed peillio y mae ein cyflenwadau bwyd yn dibynnu arnynt, mae'n bwysig bod y Cyngor yn gwneud y peth iawn ac yn chwarae rhan wrth helpu i wrthdroi'r duedd."

Darllenwch fwy yma:
https://www.newyddioncaerdydd.co.uk/releases/w66/24053.html